Coeden Ddarllen Rhydychen

# Antur Rufeinig

Roderick Hunt Alex Brychta




Rhagor o Dylluanod

DRAKE




Roedd Cad a Dids yn gwneud cywaith ar
y Rhufeiniaid.
Cywaith i Mrs Jones oedd o.
Gwnaeth Cad gerbyd rhyfel
a thynnodd Dids lun.



Edrychodd Mam a Dad ar y cywaith.
"Mae'r Rhufeiniaid yn ddiddorol," meddai Cad.
Dangosodd Dids ei lun i Mam.
Llun o gerbyd rhyfel Rhufeinig oedd o.
Roedd pedwar ceffyl yn ei dynnu.



Dangosodd Cad y model i Dad.
"Byddai'r Rhufeiniaid yn cael rasys peryglus
efo'r cerbydau rhyfel," meddai Cad.
"Roedd angen pedwar ceffyl
i dynnu'r cerbyd trwm."




Tynnodd Mam a Dad goes
Cad a Dids.
Gwisgon nhw fel Rhufeiniaid.
"Mae'n amser swper," galwodd Dad.



Cafodd Onw pizza a chafodd Mam rawnwin.
"Dyma swper Rhufeinig," meddai Mam.
"Doedd y Rhufeiniaid ddim yn bwyta pizzas,"
chwarddodd Cad.
"Sut gwyddost ti?" gofynnodd Mam.




Aeth Cad a Dids i ystafell Dids.

Roedd Cad eisiau mynd â'r cerbyd rhyfel i'r ysgol, ond roedd rhaid ei baentio gyntaf.

Roedd Dids yn un da am baentio, felly helpodd o Cad.






Yn sydyn, dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.

Aeth yr hud â Cad a Dids ar antur newydd.


"O na!" meddai Cad.

"Dwi wrthi'n paentio'r cerbyd rhyfel."




Aeth yr hud â'r plant yn ôl i
amser y Rhufeiniaid.
Aeth â nhw i Rufain.
Gwelodd Cad a Dids eneth.
Roedd hi'n chwarae ar y stryd.





Edrychodd hi ar fodel Cad.
"Mae'n fodel da," meddai, "ond
dydi o ddim yn hollol iawn."
"Welson ni erioed gerbyd rhyfel iawn,"
meddai Cad.




Enw'r eneth Rufeinig oedd Diana.
Roedd ganddi frawd o'r enw Marc.
Gyrrwr cerbyd rhyfel oedd o.
Edrychodd Marc ar fodel Cad.
"Dangosa i gerbyd iawn ichi," meddai.






Agorodd Marc ddrysau mawr.
Y tu mewn roedd cerbyd rhyfel iawn.
Roedd fel model Cad, ond
roedd yn fawr iawn.
"Waw!" meddai Cad.




Cafodd Cad fynd ar y cerbyd rhyfel.
Smaliodd Cad mai hi oedd gyrrwr y cerbyd.
Smaliodd ei bod mewn ras.
"Hoffwn i fod yn yrrwr cerbyd rhyfel,"
meddai Cad.




Chwarddodd Marc am ben Cad.
"Rhaid iti fod yn gryf i rasio
cerbydau rhyfel," meddai.
"Rydw i mewn ras heddiw.
Dowch i'w gwylio."



Roedd pawb eisiau bwyd, felly aeth Diana
â'r plant adref.
"Cawn fara," meddai hi.
"Pobydd ydi Dad.
Mae'n pobi'r bara gorau yn Rhufain."





Edrychodd pawb ar y bara, ond
roedd rhywbeth o'i le.
Doedd y bara ddim yn edrych yn iawn.
Roedd yn fflat.
Doedd o ddim yn edrych fel bara o gwbl.




Gwnaeth tad Diana fwy o fara.
Crasodd o yn y popty, ond
roedd hwnnw'n fflat hefyd.
"Wnaiff hyn mo'r tro," meddai tad Diana.
"Phrynith neb fara fel hyn."



Edrychodd Dids ar y bara fflat.
Cafodd syniad da.
"Medrwn ni wneud pizzas," meddai.
"Be ydi pizzas?" gofynnodd Diana.
"Wyddon ni ddim be ydi pizzas."



Dywedodd Dids wrth fam Diana
sut i wneud pizzas.
Helpodd pawb.
Crasodd mam Diana y pizzas
yn y popty mawr.



Edrychai'r pizzas yn dda.
"Gobeithio y byddwch chi'n eu hoffi nhw,"
meddai Dids.
"Mae pawb yn hoffi pizzas," meddai Cad.
"Mae oglau da arnyn nhw," meddai mam Diana.




Roedd blas da ar y pizzas hefyd.
Roedd tad Diana wrth ei fodd.
"Medrwn ni eu gwerthu nhw," meddai.
"Medrwn ni werthu llwythi ohonyn nhw.
Dyna lwc fod y bara'n fflat, yntê?"






Aethon nhw allan i werthu'r pizzas, ond
doedd neb ar y stryd.
Doedd yno neb i brynu'r pizzas.
"Ble mae pawb?" gofynnodd Cad.
Roedd pawb yn y rasys cerbydau rhyfel.




Roedd tad Diana yn torri'i galon.
Edrychodd ar y pizzas i gyd.
"Yr holl waith yna i ddim byd," meddai.
"Sut medrwn ni werthu pizzas pan mae pawb wedi mynd i'r rasys cerbydau rhyfel?"






Cafodd Diana syniad.
Rhoddodd pizzas mewn basged.
"Dowch!" galwodd.
"Os ydi pawb wedi mynd i'r rasys cerbydau rhyfel, medrwn ni werthu'r pizzas yno."





Aethon nhw â'r pizzas i'r
rasys cerbydau rhyfel.
"Dowch i brynu pizza!" galwodd Diana.
Ond phrynodd neb y pizzas.
Roedd pawb yn gwylio'r rasys.







Gwelodd y plant Marc, felly
rhoddon nhw un o'r pizzas iddo.
"Mae'r pizzas yma'n dda," meddai Marc.
Edrychodd Cad ar y cerbyd rhyfel a
chafodd syniad da.




Roedd baner gan y plant.
Roedd hi'n sôn am y pizzas.
Rhoddodd Marc hi ar ei gerbyd rhyfel.
Chwarddodd y bobl pan welson nhw'r faner.



"Pam mae Marc wedi rhoi baner ar ei gerbyd?" gofynnodd pawb.
"A be ydi pizzas?"
Cychwynnodd y ras ac roedd pawb yn bloeddio hwrê pan enillodd Marc.



Rhedodd y bobl i brynu'r pizzas.
"Mae'r pizzas yma'n dda," medden nhw.
"Am syniad da i roi baner
ar y cerbyd rhyfel!"







Ar hynny, daeth milwyr a chydio yn y teulu
a'r plant.
"Rhowch y gorau i werthu pizzas," medden nhw.
"Mae'r Ymerawdwr eisiau eich gweld chi.
Dowch efo ni."




Roedd yr Ymerawdwr yn flin.
“Rhowch y gorau i hyn ar unwaith,” meddai.
“Pwy roddodd y faner yma ar y cerbyd rhyfel?
A be ydi pizzas?”
“Hoffech chi flasu un?” gofynnodd Diana.



“Maen nhw’n flasus,” meddai’r Ymerawdwr.
“Cewch chi ddod â rhai i’r palas.
Ond dydw i ddim eisiau baneri ar y cerbydau rhyfel, felly ewch â’ch baner i ffwrdd.”
Ar hynny, disgleiriodd yr allwedd hud.




Edrychodd Dids ar y faner fach.
Rhoddodd hi ar gerbyd rhyfel Cad.
"Doedd yr Ymerawdwr ddim yn hoffi baneri
ar gerbydau rhyfel," meddai.
"Sgwn i beth fydd Mrs Jones yn ei feddwl?"



Argraffwyd yng Nghymru

# Antur Rufeinig

Coeden Ddarllen Rhydychen

Cam 7



Rhagor o Dylluanod

Stori gan
**Roderick Hunt**

Lluniau gan
**Alex Brychta**

Addasiad Cymraeg gan
**Emily Huws**

**Tylluanod Cam 6**

1 Yn yr Ardd
2 Onw a'r Cawr
3 Y Wibdaith
4 Gwlad y Deinosoriaid
5 Robin Hwd
6 Y Gist Drysorau

**Tylluanod Cam 7**

7 Y Blaned Goch
8 Ar Goll yn y Jyngl
9 Twll yn y To
10 Colli Allwedd

**Rhagor o Dylluanod Cam 6**

Braw yn y Nos
Afalau Drwg
Y Dywysoges a Allai Chwerthin
Antur Nadolig
Ras y Ceir Bach Gwyllt
Yr Allwedd Sgleiniog

**Rhagor o Dylluanod Cam 7**

Y Drafffordd
Y Bwli
Chwilio am Aur
Antur Chineaidd
Antur Rufeinig
Y Jig-so

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1995
Ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2000
Ⓗ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-308-3
9 790861 743086

ISBN 0 86 174308 3

DRAKE